

Draenio Cynaliadwy ar ddatblygiadau newydd yng Nghymru

Mae'r newyddlen hon wedi'i hanelu at bawb â diddordeb yn y trosglwyddiad arfaethedig o garthffosydd preifat

Cefndir

Mae'r newyddlen hon yn dilyn ymgynghoriadau gan Lywodraeth Cymru ar weithredu draenio cynaliadwy (a elwir yn SDCau) ar gyfer pob datblygiad newydd yng Nghymru. Cynhaliwyd y rhain yn yr haf 2017 a rhwng Tachwedd 2017 a Chwefror 2018, ac roedd yn cynnwys gweithdai ymgynghori ar draws Cymru yn Chwefror 2018.

Dyma'r ail o gyfres o newyddlenni yr ydym yn anelu i'w cyhoeddi, wrth arwain at gyflwyno proses gymeradwyo a safonau newydd ar gyfer rheoli draenio dŵr wyneb yn Ionawr 2019. Ein nod yw hysbysu'r sawl yr effeithir arnynt gan y broses gymeradwyo newydd, gan gynnwys datblygwyr a'u dylunwyr, peirianwyr ymgynghori, cynllunwyr awdurdod lleol, peirianwyr priffyrdd a draenio a'r sawl sy'n gyfrifol am reoli gofod gwyrdd.

Cyhoeddi crynodeb o'r ymgynghoriad ac ymateb y Llywodraeth

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru grynoded o'r ymatebion i'r ail ymgynghoriad ar fanylion gweithredu Atodlen 3 o'r Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr yng Nghymru 2010 ar 25 Ebrill. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys adborth o dri gweithdy ymgynghori.

Mae ymateb y Llywodraeth yn ffurfio rhan o'r ddogfen, ynghyd â chrynodeb o'r camau nesaf. Mae hyn yn amlygu nifer o newidiadau a wneir i'r Offerynnau Statudol drafft yn dilyn yr ymgynghoriad ac yn cadarnhau y gwneir Gorchymyn Cychwyn ym Mai sy'n dod ag Atodlen 3 i rym yn llawn o **7 Ionawr 2019**.

Eithriadau a threfniadau trosiannol

Ein cynnig gwreiddiol oedd eithrio adeiladu sy'n ymwneud â phrif ffyrdd (adeiladwyd gan Lywodraeth Cymru), rheilffyrdd Network Rail a gweithgareddau byrddau draenio mewnol (gan Gyfoeth Naturiol Cymru). Bydd yr eithriadau hyn yn cael eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth wrth baratoi.

Yn dilyn yr ymgynghoriad cyntaf ym Mai 2017, roeddem hefyd wedi gofyn am wybodaeth ar gynnig i eithrio gweithgareddau Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol. Fodd bynnag, ni chafwyd tystiolaeth yn yr ymatebion i'r gefnogaeth hon, felly ni chaiff ei chynnwys.

Yn yr ymgynghoriad cyntaf cafodd eithriad ar gyfer anheddau domestig sengl a datblygiadau a ganiateir gyda llawr llai na 100 metr sgwâr ei gynnig. Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad yn gymysg ar gyfer hyn, gyda nifer yn mynegi pryderon ynglŷn â'r posibilrwydd y byddai datblygwyr yn osgoi'r angen ar gyfer cymeradwyo. Felly, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cynnal yr eithriad hwn i ddechrau, ond ei dynnu ar ôl dwy flynedd.

Ni fydd datblygiadau sydd wedi derbyn caniatâd cynllunio neu geisiadau a dderbyniwyd gan yr awdurdod cynllunio cyn 7 Ionawr 2019 angen cymeradwyaeth gan y Corff Cymeradwyo SDCau (CCS).

Bydd datblygiadau a ganiatawyd dros 100 metr sgwâr ar ôl y dyddiad hwn angen cymeradwyaeth CCS.

Canllaw Llywodraeth Cymru

Yn ogystal â sylwadau a dderbyniwyd ar y canllawiau drafft yn ei ail ymgynghoriad, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnwys sylwadau pellach gan aelodau o'i Grŵp Cynghori

SDCau. Dylai'r ddogfen ganllawiau hon fod ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru o ddiwedd Mai, a bydd yn ddogfen fyw fydd yn cael ei diweddarau i gymryd i ystyriaeth y gwersi a ddysgwyd wrth weithredu. Mae'r prif feysydd yn cynnwys prif ddarpariaethau Atodlen 3, y cais, cymeradwyo a darpariaethau apelio a rôl ymgynghorion.

Hyfforddiant

Mae pecyn hyfforddiant a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn cael ei ddatblygu. Bydd hyn yn cynnwys cyflwyniad hanner diwrnod i ddraenio cynaliadwy a'r broses gymeradwyo newydd, cwrs hanner diwrnod mwy manwl ar gyfer y sawl sydd eisoes yn gyfarwydd gyda SDCau a diwrnod llawn i'r sawl fydd yn cyflwyno ac yn asesu cynlluniau draenio. Hoffem gynnwys astudiaethau achos o safle presennol yng Nghymru, da a drwg. Os oes gennych unrhyw enghreifftiau gallwch gysylltu â water@gov.wales. Defnyddiwch yr un cyfeiriad os oes gennych ddi-ddordeb mewn cynnal sesiwn hyfforddiant.

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yn gweithio gyda'i aelodau i ddatblygu proses gyffredin ar gyfer ceisiadau, cymeradwyaeth a mabwysiadu fydd yn sicrhau cysondeb yng ngoleuni'r posibilrwydd o uno llywodraeth leol. Bydd y dull hwn hefyd yn lleihau dryswch gyda chleientiaid ac yn hwyluso rhannu arfer da.

Roedd gweithdy a anelwyd at ddarparu cefnogaeth i Awdurdodau Lleol i helpu gyda darpariaeth lwyddiannus digwyddiad CCS ar 9 Mai a denodd dros 45 o gyfranogwyr. Gwahoddwyd siaradwyr o DCWW a Llywodraeth Leol yn Lloegr i rannu eu profiad ar weithredu carthffosydd preifat ac Atodlen 3. Bydd CLILC yn defnyddio canlyniadau'r diwrnod i flaenoriaethu ei gefnogaeth i awdurdodau lleol yn ystod y misoedd nesaf.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Roedd Gweinidogion Cymru wedi arwyddo'r Gorchymyn Cychwyn ar gyfer Atodlen 3 ar 1 Mai. Mae hyn yn rhoi'r grym i Weinidogion ddeddfu ac yn nodi'r dyddiad y bydd angen

cymeradwyaeth CCS ar gyfer datblygiadau newydd sef **7 Ionawr 2019**. Y cam nesaf yw cwblhau'r ddeddfwriaeth a'i chyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer cymeradwyaeth. Dylai copïau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig fod ar gael erbyn diwedd Mehefin, darparu manylion cais ac amserlenni cymeradwyaeth, ffioedd, pwerau gorfodi a dulliau apelio.

Adnoddau

Mae ystod eang o adnoddau ar SDCau ar gael. Mae gwefan Susdrain www.susdrain.org, a gefnogir gan Lywodraeth Cymru, yn darparu cysylltiadau i ystod eang o adnoddau ac astudiaethau achos. Mae'r rhain yn cynnwys y Llawlyfr SDCau cynhwysfawr (C753) a Chanllawiau ar adeiladu SDCau (C768). Mae Llywodraeth Cymru a CLILC yn gweithio gyda'i gilydd i gynhyrchu dogfen "cwestiynau cyffredin" i helpu gweithrediad a ddylai fod ar gael ar ddiwedd Mai. Bydd manylion ar gael mewn newyddlen yn y dyfodol.

Sut allaf i gael rhagor o wybodaeth?

Mae datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet ar ddraenio cynaliadwy ar gael yn: <https://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2017/sustainabledrainage/?skip=1&lang=cy>

Mae manylion y Safonau SDCau presennol, gwirfoddol ar gael yn: <https://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/drainage/?skip=1&lang=cy>

Mae gwybodaeth ar ymgynghoriad Tachwedd 2017 a chrynodeb o ymatebion ar gael yn: https://beta.llyw.cymru/gweithredu-systemau-draenio-cynaliadwy-ar-ddatblygiadau-newydd-rheolau-drafft-safonau-cenedlaethol?_ga=2.180693678.842390407.1527600043-1218373407.1462865011

Os byddwch angen unrhyw wybodaeth bellach ar weithredu gofynion SDCau ar ddatblygiadau newydd, cysylltwch â ni yn: water@gov.wales

Dosbarthiad y Newyddlen

Byddem yn ddiolchgar os gallech ddisbarthu'r newyddlen hon a sicrhau bod prif fudd-ddeiliaid eraill yn eich sefydliad yn ymwybodol o'r newidiadau i ddod.